## Trosolwg

Mae’r safon hon yn ymwneud ag ymateb i ddigwyddiadau ac argyfyngau yn y sector tir. Gallai hyn gynnwys tân, llifogydd, gollyngiadau, halogiad neu ddigwyddiadau amgylcheddol eraill (ar dir neu ar ddŵr), lleoliadau troseddau, damweiniau ac argyfyngau meddygol, a digwyddiadau iechyd a diogelwch, a diogeledd.

Mae’r safon hon yn berthnasol i bawb sy’n gweithio yn y sector tir. Mae’n bwysig eich bod chi’n gwybod am y gweithdrefnau sydd ar waith i ddelio â digwyddiadau ac argyfyngau, gan gynnwys beth i’w wneud, sut i ddefnyddio cyfarpar argyfwng priodol, sut i gysylltu â’r gwasanaethau brys a ffynonellau cymorth perthnasol eraill, a pha fanylion y dylid eu cofnodi a gwneud adroddiadau amdanynt.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. os bydd digwyddiad neu argyfwng, cymryd y camau gweithredu gofynnol yn unol â gweithdrefnau a chyfarwyddiadau eich sefydliad, o fewn eich cyfrifoldeb, eich awdurdod a'ch cymhwysedd
2. cael yr holl wybodaeth sydd ar gael am y digwyddiad neu'r argyfwng
3. lle bo'r angen, galw am gymorth gan y gwasanaethau brys priodol neu ffynonellau cymorth perthnasol eraill, gan roi manylion llawn am y digwyddiad neu'r argyfwng
4. darparu cymorth i eraill sy'n cynorthwyo â'r digwyddiad neu'r argyfwng
5. diogelu uniondeb a tharddiad tystiolaeth, os gallai fod ei hangen ar y gwasanaethau brys neu bartïon eraill e.e. cwmni yswiriant
6. cynnal eich diogelwch eich hun wrth ymateb i ddigwyddiadau neu argyfyngau
7. gweithredu cynlluniau wrth gefn yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad
8. cyflenwi gwybodaeth am y digwyddiad neu'r argyfwng a allai helpu i sefydlu'r achos a'i atal rhag digwydd eto
9. cwblhau'r ddogfennaeth ofynnol yn unol â gweithdrefnau a therfynau amser perthnasol eich sefydliad a rhai cyfreithiol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y mathau o ddigwyddiadau neu argyfwng a allai ddigwydd yn eich man gwaith
2. y gweithdrefnau a'r cyfarwyddiadau penodol ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau ac argyfyngau yn eich man gwaith, gan gynnwys gweithdrefnau gwacau a chynlluniau wrth gefn
3. terfynau eich cyfrifoldeb, eich awdurdod a'ch cymhwysedd i ddelio â digwyddiadau ac argyfyngau
4. y gweithdrefnau ar gyfer cysylltu â'r gwasanaethau brys neu ffynonellau cymorth perthnasol eraill a'r wybodaeth i'w rhoi iddynt
5. y dulliau y gellir eu defnyddio i alw am gymorth, gan gynnwys defnyddio negeseuon testun, pan fydd y signal ffôn symudol yn wael
6. pwysigrwydd darparu union leoliad a manylion mynediad a'r defnydd o dechnoleg, gan gynnwys what3words
7. pa gamau gweithredu y gallwch eu cymryd i gynorthwyo â'r sefyllfa e.e. ynysu offer, defnyddio cyfarpar brys, gwacau'r ardal neu gyfyngu mynediad iddi
8. pwysigrwydd gwaith tîm effeithiol mewn sefyllfa argyfwng
9. yr arferion diogel y dylid eu defnyddio wrth ymateb i ddigwyddiadau ac argyfyngau
10. pwysigrwydd diogelu uniondeb a tharddiad tystiolaeth
11. y gofynion cyfreithiol a gofynion eich sefydliad ar gyfer cofnodi a gwneud adroddiadau am ddigwyddiadau ac argyfyngau

## Geirfa

**Argyfwng:** Digwyddiad neu sefyllfa frys, annisgwyl a pheryglus fel arfer sy'n peri risg uniongyrchol i iechyd, bywyd, eiddo neu'r amgylchedd ac y mae angen gweithredu ar unwaith yn ei gylch.

**Digwyddiad:** Digwyddiad neu sefyllfa anfwriadol sy'n tarfu ar weithredu arferol ac sydd angen ymateb.

**Ffynonellau cymorth perthnasol:** e.e. swyddog cymorth cyntaf, rheolwr, person iechyd a diogelwch, milfeddyg

## Cysylltiadau â SGC eraill

LANCS10 Rheoli'r ymateb cychwynnol i ddigwyddiadau ac argyfyngau yn y sector tir
LANCS104 Cynllunio a rheoli'r ymateb i ddigwyddiadau ac argyfyngau yn y sector tir

Ymateb i ddigwyddiadau ac argyfyngau yn y sector tir

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Fersiwn rhif** | 3 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Maw 2023 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Maw 2028 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANCS11 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal anifeiliaid, Cynorthwyydd Ceffylau, Goruchwylydd Ceffylau, Ffensio, Cadwraeth Amgylcheddol, Garddwriaeth, Amaeth |
| **Cyfres/Set** | Ffensio, Ceffylau, Garddwriaeth, Cadwraeth Amgylcheddol, Rheoli Digwyddiadau yn y Sector Tir |
| **Geiriau Allweddol** | digwyddiadau; damweiniau; argyfyngau |